# Adroddiad Arolygu

**Sharon Lewis**

**Castellnewydd Emlyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais da ac maent yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Maent yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cryf, gan fwynhau'r hyn y maent yn ei wneud. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn dewis beth i chwarae, gan ddangos sgiliau annibyniaeth da.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant ac yn sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plant. Mae'n darparu amgylchedd sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.  Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau o ansawdd yn cael eu darparu ar gyfer pob oedran a cham datblygu.

Mae arferion a pholisïau'r gwarchodwr plant yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r rhieni a phartneriaethau cryf ag ysgolion lleol drwy wasanaeth casglu dibynadwy.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn hyderus i gyfleu eu dymuniadau ac y caiff eu hanghenion eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau, a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae'r plant yn dweud pan fyddant am adael y bwrdd ar ôl cael cinio neu pan fyddant am ddechrau gweithgaredd newydd fel defnyddio'r peiriant gwneud hufen iâ cludadwy ac mae'r gwarchodwr plant yn ymateb yn gadarnhaol. Mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i archwilio eu hardal chwarae ac yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r plant wedi ymlacio, ac maent yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Gwelsom y plant yn cyrraedd ac yn setlo'n gyflym i'r drefn o ddydd i ddydd, gan ddangos boddhad mawr wrth gymdeithasu â'u cyfoedion. Mae'r plant yn sgwrsio'n hyderus am yr hyn sydd yn eu bocs bwyd ac yn mwynhau dangos beth sydd ganddynt i'r lleill. Maent yn gyfforddus ac yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd ac yn gyffrous i wybod beth sy'n digwydd nesaf. Mae'r plant yn fodlon yng nghwmni ymwelwyr ac yn hyderus i eistedd wrth eu hymyl ac i rannu adnoddau megis blociau adeiladu. Mae ganddynt ymdeimlad clir o berthyn ac maent yn sgwrsio am eu diwrnod, gan ymateb yn frwdfrydig wrth sôn am yr hyn yr hoffent ei wneud megis paentio a gludo. Mae'r plant yn fwy na pharod i fynegi eu syniadau ar gyfer gweithgareddau a chyfleoedd chwarae megis creu synau ag offerynnau cerddorol.

Mae'r plant yn rhyngweithio â'u cyfoedion a'r gwarchodwr plant mewn ffordd gyson dda. Mae'r teimladau o hoffter rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn amlwg iawn. Mae'r plant yn mwynhau cydweithio ag eraill ac maent yn cymryd rhan ac yn dangos diddordeb wrth ymgymryd â gweithgareddau cymdeithasol. Er enghraifft, wrth adeiladu tŵr gan ddefnyddio blociau, mae'r plant yn arsylwi ar ei gilydd, yn cymryd eu tro, yn cyfrif ar lafar ac yn chwerthin yn gyffrous, gan weiddi *"hooray"* wrth iddynt weld tyrau ei gilydd yn dymchwel i'r llawr.

Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae ac yn weithgar wrth chwarae. Maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad wrth ddysgu ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae ysgogol megis canu a chyfrif. Mae'r plant yn cychwyn eu chwarae eu hunain yn hyderus gan fod yr adnoddau yn hawdd iddynt eu cyrraedd. Er enghraifft, roedd y plant yn archwilio'r bocsys storio ac yn dechrau creu ac adeiladu'n hyderus gan ddefnyddio adnoddau adeiladu. Maent yn mwynhau'r lle sydd ar gael i orwedd ar y llawr ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig o amser.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ac i fanteisio ar amrywiaeth o adnoddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Er enghraifft, jig-sos, ceir a buarth fferm i'r plant hŷn ac adnoddau synhwyraidd a theganau gwthio i'r plant iau. Yn ystod amser cinio, mae'r plant yn mwynhau eistedd gyda'r gwarchodwr plant wrth y bwrdd. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Gofynnir i'r plant a hoffent gael cymorth a chânt eu hannog i ddatblygu eu

sgiliau eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd i'r toiled ac yn golchi ac yn sychu eu dwylo ar eu pen eu hunain, heb unrhyw gymorth. Maent hefyd yn mwynhau cyfrifoldebau ychwanegol megis sychu'r byrddau ar ôl cael byrbrydau, a defnyddio padell a brws i frwsio unrhyw friwsion ar ôl bwyta.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei pholisïau a'i gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Mae'n rheoli risgiau mewn ffordd weithredol ac mae'n ymateb i'r plant yn gyson. Mae'r gwarchodwr plant wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diogelu diweddaraf, ac mae wedi cofrestru i fynychu cwrs hyfforddiant ar lefel uwch. Mae ganddi bolisi amddiffyn plant cadarn ar waith ac mae ganddi ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r hyfforddiant gorfodol arall megis cymorth cyntaf pediatrig a diogelwch bwyd hefyd yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr arwynebau'n cael eu sychu'n rheolaidd ac y caiff arferion hylendid megis golchi dwylo eu dilyn cyn amseroedd bwyd a chyn ymgymryd â gweithgareddau. Gan mai'r rhieni sy'n darparu pecynnau cinio'r plant, mae'r gwarchodwr plant yn frwdfrydig wrth siarad am fwydydd a diodydd iach y plant, *"what have you got today, ah you've got cherries, lovely."* Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn sensitif i'w hanghenion. Clywsom y gwarchodwr plant yn gofyn i'r plant, *"may I wipe your nose please?"* Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn cael cymorth a gwelsom eu bod yn awyddus i fod yn agos at y gwarchodwr plant yn ystod y tasgau hyn. Mae arferion y gwarchodwr plant wrth newid cewynnau yn briodol, gan hyrwyddo parch, preifatrwydd ac urddas. Mae'n manteisio ar bob cyfle i atgoffa'r plant am arferion hylendid ac mae'n diheintio'r adnoddau chwarae yn rheolaidd ar ôl eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo moesau da drwy ryngweithio'n garedig â'r plant. Mae'r trefniadau cysgu yn cydymffurfio â pholisi'r gwarchodwr plant a dymuniadau'r rhieni. Roedd ardal gysgu ddiogel yn y cartref. Mae gan y gwarchodwr plant arferion penodol ar gyfer ymdrin ag alergeddau, sy'n unol â'r gweithdrefnau, ac mae wedi ymarfer yr arferion hynny'n ofalus. Mae'n wybodus o ran rhoi meddyginiaethau'n ddiogel ac mae'n cynnig cymorth a sicrwydd i'r rhieni, gan gael eu cydsyniad bob amser.

Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gynnes ac yn gyson. Mae'n cynnig cyswllt llygaid parhaus ac iaith y corff gadarnhaol, gan roi sicrwydd, caredigrwydd a gofal. Yn ystod gweithgaredd chwarae gyda'r troli gwneud hufen iâ, roedd y rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant yn gyfoethog ac yn ddiddorol, *"Is your ice cream hot or cold?" "How much is your ice cream please?"* Ymatebodd y plant drwy ddweud *"it's fifty pounds, no it's a hundred and five,"* ac ymatebodd y gwarchodwr plant drwy ddweud, *"Gosh that's expensive."* Gwelsom fod y plant yn eistedd yn gyfforddus ar lin y gwarchodwr plant neu ar ei chefn yn ystod gweithgareddau ar y llawr. Mae'r gwarchodwr plant yn dangos diddordeb a pharch yn ystod sgyrsiau a gweithgareddau. *"That's delicious. Thank you."* Mae'n atgoffa'r plant i gymryd eu tro a bod angen rhoi mwy o amser i'r plant iau wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth dda iawn o adnoddau o ansawdd. Mae'n sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i chwarae a dysgu drwy amrywiol weithgareddau sy'n wahanol ac yn briodol o ran oedran. Gwelsom gofnodion cynllunio'r gwarchodwr plant sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o brofiadau a ddarperir. Fodd bynnag, er bod cofnodion datblygiadol ar gael, prin yw'r wybodaeth sydd yn y cofnodion hynny ac maent wrthi'n cael eu datblygu ymhellach.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| --- | --- |

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau a pholisïau effeithiol ar waith, sy'n sicrhau diogelwch a lles y plant yn ei gofal. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, ac mae'r brif fynedfa bob amser wedi'i chloi. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi presenoldeb y plant, y cynorthwywyr ac ymwelwyr mewn dyddiadur bob dydd. Mae wedi creu amgylchedd sy'n groesawgar ac yn gartrefol ac mae arferion hylendid clir ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio giatiau diogelwch i sicrhau mai dim ond y brif ystafell chwarae sydd ar gael yn llawn i'r plant, ac mai dim ond yng nghwmni'r gwarchodwr plant y gallant fynd i'r cyntedd a'r ardal newid cewynnau. Mae'n cofnodi'r holl ymarferion tân a'r prosesau ar gyfer gwagio'r adeilad ac yn sicrhau y caiff yr holl wiriadau o'r adeilad a'r gwiriadau diogelwch eu cwblhau a'u diweddaru pan fo angen. Mae asesiadau risg y gwarchodwr plant yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys yr awyr agored, a chânt eu hadolygu a'u dyddio bob blwyddyn.

Mae amgylchedd y gwarchodwr plant o safon uchel, ac mae'r ardaloedd chwarae dan do yn cynnig lle da iawn i'r plant chwarae a symud yn rhydd. Mae'n sicrhau bod y lle chwarae dan do wedi'i drefnu'n bwrpasol er mwyn cynnig y cyfleoedd dysgu a'r profiadau gorau posibl i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn storio'r holl adnoddau mewn unedau mawr ar y wal sy'n ddiogel ac yn hygyrch i'r plant. Mae wedi labelu'r holl adnoddau â lluniau er mwyn i'r plant allu gwneud dewisiadau annibynnol. Ni welsom yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod ein hymweliad oherwydd y tywydd gwael. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod yr adnoddau awyr agored yn cynnwys ffrâm ddringo fawr, beiciau a threiciau er mwyn datblygu sgiliau corfforol y plant.

Mae'r cyfleusterau y mae'r gwarchodwr plant yn eu darparu dan do o safon uchel. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd chwarae sy'n cynnwys cegin chwarae, ardal adeiladu a chyfleoedd i chwarae rôl. Mae'n darparu byrddau a chadeiriau o faint addas i blant er mwyn i'r plant allu mwynhau amseroedd bwyd a chyfleoedd chwarae byd bach ar arwynebau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu soffa i'r plant ymlacio, gorffwyso a mwynhau amser stori ac ardal â charped lle gall y plant fod yn gyfforddus ac ymlacio wrth chwarae ar y llawr. Mae'r

gwarchodwr plant hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae blêr a chwarae creadigol ar ardal arwyneb caled. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth eang o adnoddau sy'n briodol o ran oedran a chyfarpar o ansawdd uchel megis adnoddau trafnidiaeth, doliau, buarth fferm, setiau trên a jig-sos. Gwelsom adnoddau cerddorol a oedd ar gael i'r plant iau. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu arddangosiadau sy'n dilyn themâu sy'n gydnaws â'i gwaith cynllunio, fel anifeiliaid a chalonnau.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth a cheir datganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn briodol. Mae'n gweithio ar y cyd â gwarchodwr plant cofrestredig arall yn yr un amgylchedd ac maent yn rhannu'r un weledigaeth, gwerthoedd ac ethos. Mae trefniant gweithio ar y cyd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda a bod y cymarebau bob amser yn unol â'r gofynion. Mae'n cadw ffeil o bolisïau a gweithdrefnau helaeth a phwrpasol yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu'r rhain bob blwyddyn ac yn rhannu unrhyw newidiadau â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn sicrhau'n gyson bod y gofynion yn cael eu bodloni, gan eu dogfennu'n hyderus mewn ffeiliau trefnus. Mae'n rhoi llyfrynnau dechrau i'r rhieni cofrestredig sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a dogfennaeth berthnasol. Mae'r rhain yn rhan o ffeiliau'r plant. Mae pob un o'r ffeiliau hyn yn gywir ac yn gyfredol ac yn cynnwys cydsyniadau a llofnodion y rhieni. Mae cofnodion y gwarchodwr plant mewn perthynas â damweiniau, meddyginiaeth a dogfennau cerbydau oll yn gywir ac yn gyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal ac yn ystyried barn y rhieni a'r plant fel rhan o'r broses. Gwelsom holiaduron wedi'u cwblhau gan y rhieni a'r plant a thystiolaeth o sut y caiff syniadau newydd gan y plant, fel castell bownsio, a syniadau ar gyfer byrbrydau eu rhoi ar waith. Mae'n ymrwymedig i gyflwyno syniadau newydd ac mae'n mynd ati mewn ffordd ragweithiol i gynllunio ar gyfer syniadau newydd, ymweliadau a datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Mae hyfforddiant gorfodol y gwarchodwr plant yn gyfredol ac yn cynnwys cymorth cyntaf a diogelwch bwyd. Mae'n ymrwymedig i'w datblygiad proffesiynol personol ac yn ddiweddar, aeth ati i gwblhau cwrs gyda'r nos ar drawma. Gwelsom dystysgrifau, dogfennaeth a pholisïau dilys sy'n adlewyrchu diddordeb y gwarchodwr plant mewn amddiffyn plant a

sicrhau eu bod yn cael profiadau newydd a chyffrous. Mae'r gwarchodwr plant yn cyflogi un cynorthwyydd ac mae ffeil yr aelod hwnnw o staff yn gywir ac yn gyfredol. Dywedodd cynorthwyydd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad a'i bod yn cael ei chefnogi'n dda. Mae holl dystysgrifau'r cynllun datgelu a gwahardd yn ddilys ac yn gywir.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau hirdymor â'r teuluoedd. O ganlyniad i'w gwasanaeth casglu dibynadwy, mae wedi llwyddo i feithrin partneriaethau cryf â'r ysgolion lleol hefyd. Mae'n cyfathrebu â phob rhiant yn effeithiol gan ddefnyddio llwyfan cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn rhannu diweddariadau, arolygon, gwybodaeth am gyllid, negeseuon a thystiolaeth ffotograffig o brofiadau dyddiol yn ddiogel drwy'r llwyfan hwn. Dywedodd wrthym am yr amrywiaeth o ymweliadau y mae'n eu trefnu i leoedd lleol: y parc, y castell a'r traeth. Esboniodd y gwarchodwr plant bod yr ymweliadau hyn yn galluogi'r plant i gael gwahanol brofiadau dysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn aelod o sefydliad cymorth y blynyddoedd cynnar a sefydliad ambarél ac mae'n sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r holl newidiadau diweddaraf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau yr arsylwir ar yr hyn y mae'r plant yn ei wneud ac y caiff ei gofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024